

CYNGOR CYMUNED LLANDUDOCH
ST. DOGMAELS COMMUNITY
COUNCIL

Adroddiad Blynyddol /
Annual Report
2024/2025



Golygfa ar draws Llandudoch / View across St Dogmaels.

Cyngor Cymuned Llandudoch
St Dogmaels Community Council

Ffôn / Tel: 07493087151 **E-bost / E-mail:** clerk@stdogmaelscc.gov.wales
Gwefan / Web: <https://stdogmaelscc.gov.wales/>

Adroddiad y Cadeirydd 2024/25

Roedd yn flwyddyn o heriau, gan gynnwys Storm Darragh pan ddiffoddwyd y goleuadau yn hanner y pentref am ddiwrnodau lawer gan olygu canslo Cinio Nadolig yr Henoed. Gwelwyd grym y pentref pan aeth y rhai a oedd yn cael trydan i helpu'r rhai a oedd hebdo. A gwnaethom ninnau ein rhan i sicrhau na fyddai'r henoed heb ddim drwy gynnal Cinio Gwanwyn ym mis Ebrill. Daeth dros 90 o bobl ynghyd a phawb wedi gwerthfawrogi a mwynhau hynny'n fawr.

Gwnaethom gais am grant gan Grant Gwella Sir Benfro a llwyddo i gael darn newydd o gyfarpar yn y maes chwarae; cafodd carwsél lliwgar iawn ei brynu a'i osod, ac mae wedi bod yn boblogaidd iawn gan blant a rhieni fel ei gilydd.

Ym mis Mawrth comisiynwyd yr Ecolegydd Steve Halton i baratoi arolwg botanegol, asesiad ac adroddiad o ardaloedd Bioamrywiaeth ein pentref. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y rhywogaethau (botanegol gan mwyaf) a nodwyd ac yn gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ym mis Rhagfyr ac mae ar gael ar wefan ein Cyngor. Comisiynwyd Steve hefyd i lunio tair taith gerdded – taith Ystlumod gyda'r hwyr, taith adnabod Gwenoliaid a thaith sgwrsio yn edrych ar rannau o'r pentref a oedd yn rhan o'r Astudiaeth a'r Adroddiad Bioamrywiaeth. Roeddent i gyd yn boblogaidd iawn gan ddenu nifer dda o gerddwyr.

Parhawyd i barchu a chofio am filwyr y pentref a gollodd eu bywyd, a threfnwyd Diwrnod Anzac ym mis Ebrill, Diwrnod y Llynges Fasnachol ym mis Medi a Sul y Cofio ym mis Tachwedd.

Ym mis Mai ffurfiwyd pwyllgor i ailgychwyn Wythnos Gŵyl Llandudoch, sef wythnos o weithgareddau'n cael eu darparu gan fusnesau a sefydliadau lleol, gan gynnwys Diwrnod Gŵyl i bawb gael dod ynghyd a mwynhau diwrnod o hwyl a gweithgareddau am ddim yn cael eu noddi gan y Cyngor Cymuned. Darparodd y Cyngor Cymuned hefyd arian grant i helpu talu costau sefydliadau llai er mwyn iddyn nhw hefyd allu cymryd rhan.

Wrth gwrs, ni allai dim o'r pethau hyn ddigwydd heb waith diflino ein Clerc a fy nghyd-Gynghorwyr, ac mae'r gefnogaeth a'r ewyllys da a gaf fi gan bobl ryfeddol y pentref hwn yn gwneud yr holl waith caled yn werth chweil.

Cyng. Jo Hutchings
Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llandudoch

Chairman's Report 2024/25

Our year was not without its challenges, which included Storm Darragh which put the lights out in half the village for several days and meant cancelling our annual Seniors' Christmas Lunch. The village showed its metal with those that had electricity helping those that hadn't. We too made sure our seniors didn't go without by holding a Spring Lunch in April, attended by over 90 people and very much appreciated and enjoyed.

We applied and were successful in obtaining a grant from Enhancing Pembrokeshire for a new piece of playground equipment; a very colourful carousel was purchased and installed which has proved very popular with both children and parents alike.

In March 2024 Ecologist Steve Halton, was commissioned to carry out a botanical survey, assessment and report of our village Biodiversity areas. The report covered the species identified (mainly botanical) and to make recommendations for the future. The Report was published in December and is available on our Council website. We also commissioned Steve to carry out three walks, an evening Bat walk, a Swift/Swallow identification walk and a walk and talk looking at the areas of the village that formed part of our Biodiversity Study and Report. All were very popular and well attended.

We continued to respect and remember the fallen of our village, with services for Anzac Day in April, Merchant Navy Day in September and Remembrance Sunday in November.

In May a committee was formed to resurrect the St Dogmaels Festival Week, a week of activities put on by local businesses and organisations and including a Festival Day for everyone to come together and enjoy a day of fun and free activities sponsored by the Community Council. The Community Council also made available grant funding to help cover costs for smaller organisations so that they too could take part.

Of course none of this could take place without the tireless work of our Clerk and my fellow Councillors and the support and goodwill I, and other Councillors, have received from the wonderful people of this village and who make all the hard work worthwhile.

Cllr. Jo Hutchings
Chairman, St Dogmaels Community Council

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn / Highlights of the year

Digwyddiadau / Events



*Codwyd coeden Nadolig gan y Cyngor Cymuned yn y Cartws
Christmas tree erected by the Community Council at the Coach House*

Darparodd y Cyngor goeden Nadolig a goleuadau yn y Cartws, a hefyd gosodwyd rhes o oleuadau dros y gysgodfan bws yng Nglanteifion. Roeddem yn falch iawn ail-gyflwyno'r goeden Nadolig ar Sgwâr Halkett, a bod yn un o noddwyr y digwyddiad Golau i Bawb a drefnwyd gan Hanes Llandoch/Y Cartws.

The Council provided Christmas trees and lights at the Coach House and in addition covered the bus shelter at Glanteifion with strings of lights. It was please to reintroduce the Christmas tree in Halkett Square and was a sponsor for the Lighting Up event organised by the Hanes Llandoch/Coach House.

Rhoddodd y Cyngor dlysau Nadolig i bob plentyn yn Ysgol Llandudoch i'w addurno a'i hongian wedyn ar y goeden.

The Council gave St Dogmaels School Christmas baubles for each child to decorate which were then hung on the tree.



Cinio Nadolig / Christmas Lunch

Unfortunately, due to Storm Darragh the Council hosted Christmas Lunch for our Senior Citizens at the Teifi Waterside Hotel had to be cancelled.

The event was rescheduled to take place in April 2025 as the Council appreciated how much the lunch was enjoyed by all who attended.

Yn anffodus, oherwydd Storm Darragh, bu'n rhaid canslo'r Cinio Nadolig i'r Henoed a oedd wedi ei drefnu gan y Cyngor yng Ngwesty Glan Dŵr Teifi.

Cafodd y digwyddiad ei ail-drefnu ar gyfer mis Ebrill 2025 gan fod y Cyngor yn sylweddoli faint roedd pawb a oedd y bresennol yn mwynhau'r cinio.

Cinio'r Cadeirydd / Chairman's Lunch



Y Cyng Jo Hutchings, y Cadeirydd oedd yn ymddeol, yn cyflwyno gwobr Cadeirydd i Mr Glen Johnson, BEM, gyda chefnogaeth barod y Cyng Melrose Thomas.

Cllr Jo Hutchings, outgoing Chairman, presenting the Chairman's award to Mr Glen Johnson, BEM, ably supported by Cllr Melrose Thomas.

Roedd y Cyng Jo Hutchings, ein Cadeirydd a oedd yn ymadael, wrth ei bodd yn croesawu ein cyfaill Mr Glen Johnson, BEM, y Dyn Hanes, a chyflwyno iddo Wobr y Cadeirydd i gydnabod ei waith yn hyrwyddo hanes lleol a threftadaeth Cymru.

Outgoing Chairman, Cllr Jo Hutchings, was delighted to host our very own Mr Glen Johnson, BEM, the History Man, presenting him with Chairman's Award in recognition of his work promoting local history and our Welsh heritage.

MAN CHWARAE PLAYGROUND



Cafodd y Cyngor arian grant i dalu am y rhan fwyaf o gost prynu a gosod y carwsél newydd yn yr ardal i blant bach yn y man chwarae yng Ngerddi Alexandra.

The Council obtained grant funding to cover most of the cost of purchase and installation of the new carousel in the toddler area at the Alexandra Gardens play area.

Gŵyl 2025

Dechreuodd y Cyngor Cymuned gynllunio ar gyfer penwythnos Gŵyl 2025.

Gosododd y Cyngor Cymuned arian o'r neilltu yn ei gyllideb fel na fyddai tâl mynediad ar Ddiwrnod yr Ŵyl er mwyn i bawb allu ei fwynhau. Anogodd sefydliadau hefyd sy'n gysylltiedig â'r pentref, ac a oedd yn trefnu digwyddiadau yn ystod yr wythnos, i wneud cais am arian grant.

Festival 2025

The Community Council started planning for the 2025 Festival weekend Festival day.

The Council set aside funds in its budget to enable the events on Festival Day to be free of charge so that everyone could enjoy it. It also encouraged organisations associated with the village, which were putting on events during the week, to apply for grant funding.

Arian Grant

Oeddech chi'n gwybod y gall unrhyw grŵp sy'n aelod gyda'i gyfrif banc ei hun wneud cais i'r Cyngor Cymuned am arian grant?

Eleni cynorthwyodd y Cyngor Cymuned
Eisteddfod y Garreg Las
Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch
Ambiwlans Awyr Cymru
Abaty 900
Urdd Gobaith Cymru
Hanes Llandoch
Cymdeithas Rhandroedd Llandudoch
Clwb Pêl-droed Iau Llandudoch
Ambiwlans Sant Ioan – Aberteifi

Cyfanswm grantiau: £5262

Os oes gennych chi grŵp a allai elwa o arian grant, gwnewch gais gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael yn:
<https://stdogmaelscc.gov.wales/grant-funding/>

Grant funding

Did you know that any constituted group with its own bank account may apply to the Community Council for grant funding?

This year the Community Council assisted
Eisteddfod y Garreg Las
Eisteddfod Gadeiriol Llandudoch
Wales Air Ambulance
Abaty 900
Urdd Gobaith Cymru
Hanes Llandoch
St Dogmaels Allotment Association
St Dogmaels Junior Football Club
St John Ambulance – Cardigan

Total grants: £5262

If you have a group that might benefit from grant funding, please apply using the form available at:
<https://stdogmaelscc.gov.wales/grant-funding/>



Golyfa ar draws Llandudoch / View across St Dogmaels. Credit: Sue Wilson

Materion Cymunedol

Mae'r Cyngor Cymuned wedi edrych ar nifer o faterion a allai effeithio ar y gymuned.

Mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol iawn o effaith ceisiadau cynllunio yn y pentref ac mae'n ymateb fel corff i ymgynghori ag ef YN UNIG. Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am y penderfyniadau terfynol a wneir.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi ymateb i'r cais cynllunio yn Awel y Môr, a oedd ym mis Mawrth 2025 heb gael ei benderfynu gan Gyngor Sir Penfro.

Community Concerns

The Community Council has looked at a number of issues which might impact the community.

The Community Council is very mindful of the impact of planning applications in the village and responds as a Consultee ONLY. Pembrokeshire County Council is the planning authority and responsible for the final decisions taken.

The Community Council has responded the planning application at Awel y Mor, which at March 2025 had yet to received a determination from Pembrokeshire County Council.

Parch

Trefnwyd gwasanaeth Diwrnod Anzac ym mis Ebrill, a dangoswyd parch i'n treftadaeth forwrol drwy godi'r Lluman Coch ar ddiwrnod y Llynges Fasnach ym mis Medi.

Ar ôl Gwasanaeth y Cofio yn y Neuadd Goffa, trefnwyd te a bisgedi ar ôl i'r gynulleidfa ymdeithio at y Gofeb Ryfel i osod plethdorchau.



*Gwasanaeth Diwrnod Anzac yn cael ei arwain aan y Parchg. Wyn Maskell
ANZAC day service led by the Rev Wyn Maskell*

Respect

The ANZAC Day service took place in April with respect shown to our maritime heritage with the raising of the Red Ensign on Merchant Navy Day in September.

The Remembrance Service at the Memorial Hall was followed by tea and biscuits after the congregation had processed to the War Memorial for the laying of wreaths.

Diffibrileiddwyr

Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i gynnal y diffibrileiddwyr ym mharc ceir y Stryd Fawr, yn y Moorings a chydä chaniatâd caredig RNLI ar Draeth Poppit.

Defibrillators

The Community Council continues to maintain the defibrillators in the High Street car park, at the Moorings and with the kind permission of the RNLI at Poppit Sands.

Gwybodaeth

Os hoffech wybod beth sy'n mynd ymlaen yn y pentref, edrychwch ar hysbysfyrddau'r Cyngor Cymuned. Pan fydd yn bosibl, lluniwch eich hysbysiadau ar bapur maint A5 am bob iaith.

Mae gan y Cyngor Cymuned ei wefan ei hun

<https://stdogmaelscc.gov.wales/> lle gallwch weld gwybodaeth am fusnes y Cyngor.

Information

If you want to know what is going on in the village, look no further than the Community Council noticeboards. Please, where at all possible, keep your notices to A5 size per language.

The Council hosts its own website <https://stdogmaelscc.gov.wales/> where you can find information about Council business.





Gwefan ac E-bost

Mae'r Cyngor nawr wedi ei gofrestru i ddefnyddio .gov.wales fel ei ôl-ddodiad ar gyfer negesau e-bost a'i wefan.

Mae hyn yn rhoi hunaniaeth fwy ffurfiol i'r Cyngor ac yn ei alinio'n glir â'i gymheiriaid mewn Llywodraeth Leol.

Mae gwybodaeth am eich Cyngor a'ch Cynghorwyr i'w chael yn <https://stdogmaelscc.gov.wales/>

Prosiectau

Mae'r Cyngor yn gweithio ar brosiect sylweddol i ddiweddarau ac adnewyddu'r hysbysfyrddau o gwmpas y pentref sy'n edrych yn flinedig, ac un y mae'n gyfrifol amdano ar Draeth Poppit.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gobeithio creu llwybr pentref a fydd yn cyflwyno ymwelwyr a thrigolion i wahanol agweddau ar fywyd y pentref.

Mae'r Cyngor yn gobeithio gallu cael arian grant ar gyfer y prosiect.



Website and Email

The Council is now registered to use .gov.wales as its suffix for emails and its website.

This gives the Council a more formal identify and clearly aligns it with its Local Government counterparts.

Information about your Council and Councillors can be found at <https://stdogmaelscc.gov.wales/>

Projects

The Council is working on a significant project to update and replace the tired information boards around the village and one, for which it is responsible, at Poppit.

In addition the Council hopes to create a village trail which will introduce visitors and residents to different aspects of village life.

It is hoped that the Council will be able to obtain grant funding for the project.



Bioamrywiaeth

Yn anffodus, cafodd rhan o'r ardal fioamrywiaeth ei thocio gan rywun anhysbys yn ystod y flwyddyn. Llwyddodd y Cyngor i fynd ymlaen â'r Adroddiad Ecoleg ar y Pinog, a diolch i'r drefn ni chafodd y fandaliaeth effaith sylweddol ar yr ardal honno.

Mae'r Cyngor yn dal i gynnal ei ymrwymiad i gefnogi bioamrywiaeth ar dir sy'n eiddo iddo, ac mae'n trefnu teithiau tywys ar y Pinog ac o gwmpas y pentref, dan arweiniad ecolegydd lleol profiadol.

Cychwynnodd y Cyngor y ddalen 'St Dogmaels Goes Wild' i annog y trigolion i rannu eu lluniau a'u gwybodaeth am fywyd gwyllt lleol

<https://www.facebook.com/groups/493037060315112/>

Biodiversity

Unfortunately part of the biodiversity area was strimmed by person unknow during the year. The Council was able to go ahead with its planned Ecology Report on the Pinog area and, thankfully, the vandalism had not had a significant impact on the area.

The Council continues to maintain its commitement to supporting biodiversity on land it owns and is organising guided walks both at the Pinog and around the village, led by an experienced local ecologist.

The Council also started the 'St Dogmaels Goes Wild' FB page to encourage residents and villagers to share their local wildlife photographs and information

<https://www.facebook.com/groups/493037060315112/>



Cychod ar Draeth y Pinog

Mae'r ardal hon sydd wedi ei chofrestru'n llain bentref yn eiddo i'r Cyngor ac yn cael ei chynnal ganddo.

Am ei bod wedi ei chofrestru'n llain bentref, nid yw'r Cyngor yn cyhoeddi caniatâd ffurfiol i storio cychod yn yr ardal: mater o 'arfer a defod' ydyw.

Fodd bynnag, mae gan y Cyngor ddyletswydd o ofal i sicrhau bod yr holl gychod yn cael eu cynnal mewn cyflwr 'diogel', gan eu bod ar dir cyhoeddus, a bod yswiriant 3ydd parti mewn grym.

Dylai cychod fod yn cael eu defnyddio'n rheolaidd os cânt eu storio ar y Pinog, ac ni ddylid gwneud gwaith cynnal a chadw yno.

Mae gan Dŵr Cymru hawl tramwyo bob amser ar draws y traeth, ac mewn argyfwng gall symud cychod heb orfod cael caniatâd y perchennog.

Dylai eich manylion cyswllt, ffotograff o'ch cwch ar gyfer ei adnabod, a phrawf o'ch yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gael eu hanfon at clerk@stdogmaelscc.gov.wales

Boats on the Pinog Beach

This area registered village green owned and maintained by the Community Council.

Because it is registered village green the Council does not issue formal permission for boats to be stored in the area, it is 'custom and practice'.

However, the Council has a duty of care to ensure that all boats are maintained in a 'safe' condition, being on public land, and that there is 3rd party insurance is in place.

Boats should be in regular use if stored on the Pinog beach and maintenance/repair works should not be undertaken there.

Dwr Cymru has a right of way at all times across the beach and in an emergency situation may move boats without being required to obtain the owner's permission.

Your contact details, a photograph of your boat for identification purposes and evidence of your public liability insurance should be sent to clerk@stdogmaelscc.gov.wales

Cyllid / Finance

	Incwm / Gwariant Income / Expenditure 24/25 Net	Cyllideb Budget 25/26
Incwm / Income		
¹ Praesept / Precept	£40,000.00	£63,374.00
Arall / Other	£121.38	£0.00
Ad-daliad TAW / Vat Reclaim	£2,501.06	£5,000
Arian grant / Grant funding	£0.00	£6,434.00
Prosiectau (gweler wrth gefn) / Projects (see reserves)	£0.00	£0.00
Gwariant / Expenditure		
Treuliau Cynghorwyr / Councillor Expenses		
Taliadau i Gynghorwyr / Payments to Councillors	£1,092.00	Wrth Gefn / Reserves
Nwyddau Traul / Consumables	00.00	Wrth Gefn / Reserves
Costau Teithio Cynghorwyr / Cllrs Travel	£73.45	150.00
Lwfans Gofal / Allowance for Care	Wrth Gefn / Reserves	Wrth Gefn /


²Treth a godir gan Gyngorau Tref a Chymuned ar eiddo an-fasnachol yn eu ward etholiadol, yn cael ei chasglu drwy'r Dreth Gyngor / A tax levied by Town and Community Councils on non-commercial properties within its electoral ward, collected via the Council Tax.

		Reserves
Lwfans y Cadeirydd / Chairman's Allowance	00.00	£100.00
Hyfforddiant / Training	£120.00	£500
lawndal colled ariannol / Financial loss compensation	0.00	Wrth Gefn / Reserves
Lwfans yr Is-gadeirydd / Allowance vice-chairman	£100.00	£100.00
Costau Staff / Staff costs	20488.25	£21,966.07
Defnyddiau Swyddfa / Office Supplies		
Post (yn cynnwys ffôn 24-25 / Post (included phone 24-25)	£66.64	£20.00
Nwyddau Swyddfa ac Inc (hefyd yn cynnwys Blwch PO – meddalwedd etc 24/25) / Office Supplies & Ink (also includes PO Box -software etc 24/25)	£841.13	£250.00
Cyfieithu / Translation	£88.25	£500.00
Cyfrifon / Accounts	£329.00	£450.00
Ffôn / Phone	£0.00	£60.00
Adobe	£0.00	£250.00
Adnewyddu Blwch PO / PO Box renewal	£0.00	£450.00
MS365	£0.00	£0.00
Hurio'r Neuadd / Zoom (heb eu gwahanu 24/25) / Hall Hire (not separated 24/25)	£447.90	£200.00
Zoom		£0.00
Hurio'r Neuadd cyffredinol / Hall Hire general		£0.00
Hurio'r Neuadd digwyddiadau / Hall hire events		£0.00
Cynnal a Chadw, Trwsio a Defnyddiau / Maintenance, Repair & Materials		
Cynnal a Chadw Cyffredinol a Thrwsio / General Maintenance & Repair	£1,975.56	£2,750.00
Torri Porfa / Grass Cutting	£5,401.00	£8,000.00
Gwaith Coed / Tree Work	£0.00	£1,500.00
Chwistrellu / Spraying	£0.00	£400.00
Goleuadau Nadolig / Taflunydd / Christmas Lights/ Projector	£679.34	£250.00
Coed Nadolig / Christmas Trees	£137.50	£200.00
Yswiriant Proffesiynol a Thanysgrifiadau / Professional Insurance & Subs		
Yswiriant / Insurance	£1,149.36	£1,500.00
Un Llais (24-25 yn cynnwys 2 flynedd) / One Voice (24--25 covered 2 years)	£648.00	£350.00
Archwiliad Allanol / External Audit	£400.00	£500.00
Archwiliad Mewnol / Internal Audit	£385.00	£400.00
Diogelu Data / Data Protection	£35.00	£40.00
Gwefan / Website	£309.96	
Croesawu (blynyddol) / Hosting (annual)	£0.00	£130.00
Dom reg (bob dwy flynedd) / Dom reg (biannual)	£0.00	£0.00
E-bost (blynyddol) / Email (annual)	£0.00	£99.99
Parish Online	£90.00	£120.00
Treuliau Etholiadol / Electoral Expenses	Wrth Gefn / Reserves	Wrth Gefn / Reserves
Taliadau Banc Lloyds / Lloyds bank charges	£4.25	£51.00

Arolwg Coed / Tree survey	1000.00	£0.00
Cyfreithwyr / Solicitors	£0.00	£500.00
Ffioedd banc / Bank fees	£4.25	£51.00
Gwasanaeth y Cofio / Remembrance Service	£27.64	£100.00
Man Chwarae / Playground		
Cynnal a Chadw Cyffredinol / General Maintenance	£24.14	£2,000.00
Cytundeb Lefel Gwasanaeth / Service Level Agreement	£2,423.00	£2,423.00
Cyfalaf / Capital		
Rhastlau beiciau / Bike racks	£0.00	£0.00
Diffibrileiddwyr / Defibs	£0.00	£1,500.00
Meinciau / Benches	£1,694.30	£0.00
Biniau graean / Grit bins	£180.00	£0.00
Goleuadau Nadolig / Christmas lights	£500.72	£0.00
Carwsél Kompan i'r man chwarae a'i osod / Kompan playground carousel and installation	£8,922.97	£0.00
Gliniadur / Laptop	£0.00	£600.00
Printiwr Epson / Epson printer	£0.00	£0.00
Rhoddion / Donations		
Pwerau Eraill / Other Powers	£5262	£4,000.00
S137	00.00	£0.00
Adloniant / Entertainment		
Cyffredinol / General	£0.00	£2,700.00
Cinio'r Cadeirydd / Chairman's Dinner	£110.42	£200.00
Eraill / Other	£46.33	£100.00
Gwobrau / Prizes	£0.00	£0.00
Diffibrileiddwyr / Defibs		
Cynnal a Chadw / Maintenance	£0.00	£300.00
Pŵer Glanteifion / Power Moorings	£620.33	£1,000.00
Diffib defnyddiau traul cyffredinol / Defib consumables general	£268.27	£0.00
Diffib defnyddiau traul Poppit / Defib consumables Poppit	£66.00	Wrth Gefn / Reserves
Prosiectau (gweler hefyd wrth gefn) / Projects (see also reserves)		
Bioamrywiaeth ac Ecoleg / Biodiversity and Ecology	470.00	£400.00
Cynllunio Mewn Argyfwng / Emergency Planning	£0.00	£2,000.00
Gweithgor Digwyddiadau / Events Working party		
Pabell / Marquee	£0.00	£1,500.00
Band	£0.00	£500.00
MC	£0.00	£300.00
Diogelwch / Security	£0.00	£300.00
Toiledau Symudol / Portaloos	£0.00	£260.00
Marchnata x 2 faner / Marketing x 2 banners	£0.00	£100.00
Hurio'r Neuadd / lluniaeth / Hall hire / refreshments	£0.00	£120.00
Yswiriant ychwanegol (canslo) / Extra insurance (cancellation)	£0.00	£200.00
Seddau /stondinau / Seating /stalls	£0.00	£100.00

Digwyddiadau annisgwyl / Contingency	£0.00	£300.00
		ychwanegwyd / added
Sbwriel / Litter	£0.00	£182.00
Castell sboncio / Bouncy castle	£0.00	£535.00
Fun at the Flaire	£0.00	£0.00
Sant Ioan / St Johns	£0.00	£0.00
Cyfanswm / Total	£55,403.71	
Cyfanswm Incwm / Income Total	£42,622.44	

Gwir Wrth Gefn 01-04-25 / Actual reserves 01-04-25			
	Darpariaeth amser salwch (locwm) i'r Clerc / Sickness cover (locum) for Clerk	4000	160 awr @£25 yr awr / 160 hours @ £25 per hour
	Cronfa Etholiad / Election fund	8000	Unrhyw etholiad a elwir yn y ward, yn fras cost etholiad lle mae cystadlu £6k / Any election called in the ward est cost of contested election £6k
	Cronfa gyfalaf y Man Chwarae (unrhyw arian cyfalaf heb ei wario i gael ei gyfyngu ar gyfer y gronfa gyfalaf / Playground capital fund (any unspent maintenance monies to be ringfenced for capital fund)	4611.86	
	Llwybr yng Ngerddi Alexandra / Path in Alexandra Gardens	8000	
	Diffib yn Poppit, grant am gostau refeniw, gan gorff lleol, na ellir ei ailosod / Defib at Poppit, grant for revenue costs, from local organisation, cannot be reassigned	644	
IRPW	Cyfraniad at gost gofal a chefnogaeth bersonol IRPW / Contribution towards cost of care and personal assistance IRPW	2000	
IRPW	Digolledu am Golled Ariannol (IRPW drafft 23-24) / Financial Loss Compensation (IRPW draft 23-24)	200	
IRPW	Taliad i Gynghorwyr (IRPW draft 23-24) / Payment to Cllrs (IRPW draft 23-24)	1872	Gellir gwrthod £156 am bob Cynghorydd /£156 per Cllr can be refused.
IRPW	Cyngor yn dewis ad-dalu pan gyflwynir anfoneb / Council chooses to reimburse on production of invoice.	624	Eglurwyd yn dilyn grŵp ffocws IRPW. Gellir ei wrthod / Clarified following IRPW focus group. Can be refused
	Adnewyddu hysbysfyrddau / awdio / gwefan os bydd grantiau'n cael eu darparu / Replacement of information boards / audio / website subject to grants being available	4000	Ar sail 20% o arian cyfatebol ar gyfer costau o £20k / Based on 20% match funding of £20k costs
	Gwaith celf a llwybr bioamrywiaeth / Bio-diversity artwork and trail	500	
	Wedi'i neilltuo ar 31.3.25 / Ringfenced as at 31.3.25	35075.86	
	Gwir arian wrth gefn ar 01-04-25 / Actual reserves as at 01-04-25	65,626.41	
	Heb arian wrth gefn wedi'i neilltuo / Minus ringfenced reserves	35075.86	
	Wrth gefn yn rhydd ar 01-04-25 / Free reserves as at 01-04-25	30,550.55	



CYNGOR CYMUNED LLANDUDOCH ST. DOGMAELS COMMUNITY COUNCIL

Mae Cyngor Cymuned Llandudoch yn cwrdd ar y 4ydd nos lau yn y mis am 7pm; neilltuir y chwarter awr cyntaf i unrhyw aelod o'r gymuned sy'n dymuno codi mater gyda'r Cyngor Cymuned.

Ar hyn o bryd cynhelir cyfarfodydd drwy Zoom, a gwahoddir y gymuned i'r wefan dan yr agenda a dogfennau cefnogi <https://stdogmaelscc.gov.wales/agenda/>

St Dogmaels Community Council meets on the 4th Thursday of the month at 7p.m; the first 15 minutes are allocated to any member of the community who wishes to raise an issue with the Community Council.

Currently meetings are conducted on Zoom, an invitation to the community is extended on the website under agenda and supporting documents <https://stdogmaelscc.gov.wales/agenda/>

Beth yw Cyngor Cymuned a beth mae'n ei wneud?

- Cyngor Cymuned yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth yn y gymuned.
- Mae Cyngorau Cymuned (sy'n cyfateb i Gyngorau Plwyf yn Lloegr) yn gyrrff cyfreithiol wedi'u creu drwy Ddeddf Seneddol, ac mae ganddyn nhw hawl i godi treth leol (a elwir yn Braesept) ar bob cartref.
- Gwneir penderfyniadau'r Cyngor gan Gyngorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol gan bleidleiswyr lleol.
- Swyddogaeth Cyngor Cymuned yw hyrwyddo'i ardal leol, cynrychioli ei buddiannau a chefnogi gwaith grwpiau cymunedol lleol.
- Mae Cyngorau Cymuned hefyd yn darparu ystod fach o wasanaethau cyhoeddus lleol sy'n amrywio yn ôl maint y pentrefi. Fodd bynnag, mae cyfrifoldebau Cyngorau Cymuned yn gyfyngedig gan fod y rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol yn cael eu cyflawni gan y Cyngor Sir.

What is a Community Council and what does it do?

- A Community Council is the most local level of government in the community.
- Community councils (equivalent of Parish Councils in England) are legal bodies created by Act of Parliament and have the right to levy a local tax (called a Precept) on every household.
- Decisions of the Council are made by Community Councillors who are elected by local voters.
- The role of a Community Council is to promote their local areas, represent its interests and support the work of local community groups.
- Community Councils also provide a limited range of local public services which vary according to the size of the villages. However, the responsibilities of Community Councils are limited, as most local government services are undertaken by the County Council.

Beth mae Cyngor Cymuned Llandudoch (CCLI) yn ei wneud?

Mae yna dipyn o ddryswch ynglŷn â phwy sy'n rhedeg pa wasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n ddealladwy gan nad yw bob amser yn hawdd gweld pwy sy'n gwneud beth a pham. Fodd bynnag, yn gyffredinol Cyngor Sir Penfro sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol.

Mae CCLI yn lobio dros weithredu cymunedol yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae CCLI yn gweithredu fel corff anstatudol i ymgynghori ag ef ynglŷn â cheisiadau cynllunio gyda Chyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Mae CCLI yn cynnig cynlluniau grant i gyrff cymunedol lleol, ac mae mwy o wybodaeth i'w gweld yma <https://stdogmaelscc.gov.wales/grant-funding/>

Cyngor Cymuned Llandudoch (CCLI) yn unig sy'n gyfrifol am:

- Y Pinog (SddGA)
- Glanfa'r Pinog, storio cychod a'r llwybr mynediad

Mae gan CCLI reolaeth uwch dros fioamrywiaeth mewn nifer o'r manau uchod

Amwynderau'n cael eu rheoli gan CCLI:

- Hysbysfyrddau (pan fyddant wedi'u prynu gan CCLI)
- Man Chwarae'r Plant a Gerddi Alexandra
- Arosfannau Bws
- Cofeb Ryfel

Digwyddiadau'n cael eu trefnu gan CCLI

- Cinio Nadolig y Pensiynwyr
- Coeden Nadolig a goleuadau
- Trefnu gwasanaethau ar gyfer Diwrnod Anzac, Diwrnod y Llynges Fasnach a Sul y Cofio

Cyfrifoldeb ar y cyd â Chyngor Sir Penfro dros:

- Sgwâr Halket a'r ardd gerllaw
- Cofeb Ryfel Llandudoch
- Datblygu Cymunedol
- Bioamrywiaeth

What does St Dogmaels Community Council (SDCC) do?

There is a lot of confusion about who runs which public services. This is understandable as it is not always easy to work out who does what and why. However, generally, most local government services are the responsibility of Pembrokeshire County Council.

SDCC lobbies for community actions both locally and nationally.

SDCC acts as a non statutory consultee on planning application with both Pembrokeshire County Council and Pembrokeshire Coast National Park.

SDCC offers a grant funding scheme for local community organisations, more information can be found here <https://stdogmaelscc.gov.wales/grant-funding/>

St Dogmaels Community Council (SDCC) has sole responsibility for:

- The Pinog (SSSI)
- Pinog Slipway, Boat storage and approach track way

SDCC has enhanced bio-diversity management in many of the above areas

Amenities managed by SDCC:

- Notice boards (where purchased by SDCC)
- Childrens' Play Area and Alexandra Gardens
- Bus Stops
- War Memorial

Events Organised by SDCC

- Pensioners Christmas Lunch
- Christmas Tree and lights
- Organise services for Anzac Day, Merchant Navy Day and Remembrance Sunday

Joint responsibility with Pembrokeshire County Council for:

- Halket Square and adjacent garden area
- St Dogmaels War Memorial
- Community Development
- Biodiversity



CYNGOR CYMUNED LLANDUDOCH ST. DOGMAELS COMMUNITY COUNCIL

☀️ Gwnewch Wahaniaeth yn Eich Cymuned! ☀️
☀️ Make a Difference in Your Community! ☀️

Ymunwch â Chyngor Cymuned Llandudoch fel Cynghorydd Join St Dogmaels Community Council as a Councillor

*Oes gennych chi'r sgiliau a'r angerdd i gyfrannu at wella ein pentref?
Do you have the skills and passion to contribute to the betterment of our village?*



Cyfarfodydd Misol: Llunio cynlluniau'r Cyngor mewn cyfarfodydd misol rheolaidd (ac eithrio Awst a Rhagfyr) a chymryd rhan mewn trefnu digwyddiadau sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor.

Monthly Meetings: Shape the Council's plans at regular monthly meetings (except August and December) and get involved in organizing Council-run events.



Cyllideb Flynyddol: Cyfrannu at reoli arian a godir o Dreth y Cyngor i gefnogi swyddogaethau hanfodol:

- Rhedeg y Cyngor yn effeithlon
- Cynnal tir sy'n eiddo/ar brydles
- Cychwyn prosiectau ar gyfer amgylchedd pentref gwell
- Darparu cymorth ariannol i grwpiau lleol

Annual Budget: Contribute to managing funds raised from Council Tax to support essential functions:

- Run the Council efficiently
- Maintain owned/leased land
- Initiate projects for a better village environment
- Provide financial aid to local groups



Mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel ymgynghorai ar geisiadau cynllunio, gan lobïo awdurdodau lleol a sefydliadau i gynrychioli anghenion a phryderon y pentref.

The Council also acts as a consultee on planning applications, lobbying local authorities and organisations to represent village needs and concerns.

Ymgeisiwch Nawr! / Apply Now!

Anfonwch eich cais a CV byr (*mae meini prawf cymhwyso yn berthnasol) at y Clerc.
Send your application and a brief CV (* qualifying criteria apply) to the Clerk.

Mrs. Sue Davies: ☎️ 07493087151

✉️ clerk@stdogmaelscc.gov.wales 🌐 stdogmaelscc.gov.wales

Byddwch yn Gatalydd ar gyfer Newid Positif yn Llandudoch!

Be a Catalyst for Positive Change in St Dogmaels!